Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Datganiad i'r Wasg

I'w ryddhau ar unwaith
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

10fed Tachwedd 2019

Mae angen cyllido ysgolion Cymru yn iawn

Mae undeb addysg fwyaf Cymru yn pryderu am yr adroddiadau bod ysgolion yn defnyddio'r Cwricwlwm newydd fel esgus i ad-drefnu, ac yn ofni y bydd Penaethiaid yn ei ddefnyddio fel esgus i dorri costau yn sgil yr argyfwng cyllido. Mae Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru hefyd yn pryderu nad yw Aelodau Seneddol Cymru, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn benodol, yn ei ystyried yn ddyletswydd arnynt i fynd at San Steffan i ofyn am fwy o arian i Addysg yng Nghymru.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Ers 2015, mae oddeutu 942 o ysgolion yng Nghymru wedi cael toriadau yn eu cyllid gan arwain at ostyngiad yn nifer y staff, adnoddau annigonol, dosbarthiadau mwy o faint ac adeiladau ysgolion sy'n dadfeilio. Bydd nifer yr ysgolion ar y rhestr hon yn cynyddu os na wneir dim i wrthdroi'r toriadau.

"Gyda Llywodraeth San Steffan yn addo buddsoddiad o £14bn ar gyfer ysgolion Lloegr dros y tair blynedd nesaf, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'r swm ychwanegol a dderbyniwyd gan y grant bloc ar gyfer darpariaeth addysg. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r undebau eraill ar Ymgyrch Toriadau i Ysgolion Cymru i dynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu ein hysgolion yma yng Nghymru."

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 30. Cyllid Ysgol

Mae Cynhadledd Cymru yn falch:

1. Bod rhywfaint o gynnydd i'w weld bellach o ran brwydro'r toriadau i ysgolion yng Nghymru.

2. Bod lansiad Toriadau i Ysgolion Cymru wedi bod gan gynnwys gwefan toriadauiysgolion.cymru yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

3. Bo'n fuan, bydd gan actifyddion yng Nghymru y deunyddiau dwyieithog perthnasol sydd eu hangen arnom i ymgyrchu yn erbyn toriadau i ysgolion.

Mae Cynhadledd Cymru yn bryderus:

i. Bo adroddiadau bod ysgolion yn defnyddio'r cwricwlwm newydd fel esgus i ad-drefnu ac yn ofni y bydd Penaethiaid yn ei ddefnyddio fel esgus i dorri costau.

ii. Nad yw ASau Cymru yn ei ystyried yn gyfrifoldeb arnyn nhw i fynd at San Steffan a gofyn am fwy o arian i Addysg yng Nghymru.

Cred Cynhadledd Cymru:

Bellach bo angen strategaeth â gwir ffocws gan NEU Cymru a'r Adran Weithredol sy'n adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o ymgyrch toriadau Lloegr i helpu actifyddion i drefnu yn eu hardaloedd.

Mae Cynhadledd Cymru yn galw ar NEU Cymru a'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

a. Gynnig digwyddiadau hyfforddi ar ymgyrchu yng Nghymru i actifyddion sydd am ymglymu mewn ymgyrchu yn eu hardaloedd ond nad ydynt yn gwybod sut i wneud hynny.

b. Annog aelodau i ymgyrchu yn eu hysgolion a threfnu'r aelodaeth ynghylch y mater cyllido.

c. Alluogi ac annog aelodau mewn ysgolion i weithredu ar lefel leol yn erbyn toriadau sy'n arwain at ddiswyddiadau gorfodol, amodau gwaith sy'n dirywio i'n haelodau a phrofiad addysgol gwaeth i'r disgyblion rydym yn eu haddysgu. Gall y weithred hon gynnwys defnyddio Gweithredu yn Fyr o Streicio (GYFOS) a phleidleisio ar gyfer streicio.

d. Weithio gyda rhieni, gofalwyr ac undebau llafur a chyrff eraill â diddordeb i drefnu gwrthdystiad cenedlaethol ledled Cymru yn erbyn toriadau mewn cyllid ysgolion.

Cysylltiadau'r wasg:

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

Nodyn i olygyddion:

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.